

COFNODION CYNGOR BRO LLANGELER 20 – 05 – 2024

Cofnodion Cyfarfod Misol Nos Lun Mai 20ed 2024 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **05/24 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Richard Evans. Cynghorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, Delyth Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Marc Rees, Gethin Richards [trwy Zoom], Eleri Samson, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith, Adrian Thomas. Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn Bresennol: Cyfieithydd , Cyng S.G. Hazel Evans
2. **05/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Angharad Edwards,
3. **05/24 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.
4. **05/24 HEDDLU:** – Ymddiheiriad – nodwyd bod tipyn o gam ymddwyn yn Drefelin a Ger y Llan
5. **05/24 COFNODION:** Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 25ain 2024
Cynnig: Cyng Adrian Thomas Eilio: Cyng Antoni Schiavone
6. **05/24 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – gweler Materion Angen Trafodaeth
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – gweler Adroddiad Pwyllgor
12.1.i. 04/24 Dŵr ar wyneb yr hewl nes lawr na Garej Bargod nododd Cyng A Schiavone ei fod wedi siarad a Dŵr Cymru a'i wedi bod allan ac wedi datrys y sefyllfa
7. **05/24 GOHEBIAETH:**
 - i. ebost – Ysgol Penboyr - Llythyr o Ddiolch
 - ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 29/04/2024 - 03/05/2024 – *cylchlythyrwyd*
 - iii. ebost – CSG – Cais cau hewl CU5470 Felindre Application for road closure– *cylchlythyrwyd*
 - iv. ebost – CSG – Newyddion diweddaraf – *cylchlythyrwyd*
 - v. ebost – CSG – cau hewl ar frys - U5411 Velindre SA44 5HT - emergency road closure: *cylchlythyrwyd*
 - vi. ebost – Versus Arthritis new online Welsh speaking support group – *cylchlythyrwyd*
 - vii. ebost– Atgoffa am a Gwahoddiad i Ddydd Agored Stori Fawr Drefach Felindre 29/06/2024 from 11am – *cylchlythyrwyd*
 - viii. ebost – Ceisiadau Cynllunio 06/05/2024 - 10/05/2024 – *cylchlythyrwyd*
 - ix. ebost – CSG – Cau hewl ar frys C1316 Llanpumsaint SA33 6LA – *cylchlythyrwyd*
 - x. ebost – ULIC – weminar - Lansio Adnoddau Newydd – *cylchlythyrwyd*
 - xi. ebost – CSG – Additional Lighting Column - near Trewern, Saron – *cylchlythyrwyd – yn dilyn trafodaeth cytunwyd dylid aros tan canlyniad adolygiad yr 20mya*
8. **05/24 CYNLLUNIO**
CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI LLAWN
Cais Ymgynghori llawn
PL/07735 – Dymchwel shed a chodi dau gaban pren yn ei lle (gosod i wyliau) ail gyflwyno cais gwrthodwyd cynt PL/06233 – Blaen Maenog, Velindre, Llandysul, SA44 5JA - *dim gwrthwynebiad*
9. **05/24 MATERION ARIANNOL**
 - A. Cyfrifon Diwedd Blwyddyn / *End of Year Accounts* -
 1. **Anfonebau / Invoices**
 - i. TRYWYDD [caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb].....£92.40
 - ii. HMRC (Mai).....£130.00
 - iii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio Neuadd]£12.75
 - iv. Clerc/ Clerk [Ink cartridges]£136.90
 - v. Dŵr Cymru£18.20
 - Arian yn y Banc ar 08/05/24£29,941.80
 - b. **S/O**
Cyflog y Clerc £530.00
 2. **Apêl am Nawdd Ariannol**
 - i. Ysgol Feithrin Velindre – trwy Cyng K Howell fel Cynghorydd Sir – *yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylai K Howell fynd yn old at yr Ysgol Feithrin a dweud wrthynt am wneud cais uniongyrchol i'r Cyngor gan gynnwys mantolen*
10. **05/24 MATERION ANGEN TRAFODAETH**
Parc Pentrecwrt – Cyng J Ayres wedi gwneud ychydig o ymholiadau ond ddim llawer o blant yn yr ardal dwedodd byddai yn gwneud mwy o ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf. Cyng K Howell i wneud ymholiadau a fyddai'r Cyngor Sir a diddordeb i werthu'r ddaear i'r deiliaid acnododd K Howell y pryder am y ffram ac fe gytunwyd dylai siarad â'r Cyngor Sir ynghylch y dodrefn yn y parc.

Cadeirydd _____

Dyddiad _____

11. 05/24 ADRODDIAD PWYLLGOR

Byrddau Llwybrau Gwlân – dim i adrodd nôl ar hyn o bryd.

12. 05/24 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng D Evans – i. dŵr ar y tro ochr isaf i garej Bargod
ii. cyflwr yr hewlydd yn yr ardal
2. Cyng A Schiavone - i. tyllau anferth yn y ddau encilfa ger fferm Rhosgeler ychydig ymlaen o eglwys St Iago, Rhos
ii. Hewl o Bancyffordd i Bentrecwrt yn ddifrifol
iii. Llwybr cyhoeddus
3. Cyng M Rees – i. nododd bod y draen ar Pont Brân wedi ei glirio
ii. dŵr yn casglu ar waelod rhiw Aberlleinau
4. Cyng A Thomas – i. dwedodd bod yr afon yn erydu'r llwybr heibio Cwmtywyll o'r hen Rheilffordd ym Mhont Tyweli
5. Cyng K Howell – i. cododd y mater o doiledau Parc Puw bod rhywun wedi bod allan yn edrych ar y gwasanaethau sydd yno
ii. gofynnodd a oedd y draeniau wedi ei glanhau ym Mhon Tyweli – Adrian yn credu ei bod nhw
6. Cyng A Edwards – i. i'r Cynghorwyr Sir - cael gwared o'r arwydd 20mya yn Rhos
7. Cyng H Evans – i. dwedodd bod Adran Gorfodaeth yn ymdrin ynglyn y caban yn y cae tu ôl i 'r hen Tollgate, Llandysul

13. 05/24 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf nos Lun Mehefin 24ain 2024 am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50yh

_____ Cadeirydd Dyddiad _____